

Y DYN SWLLT

Drama radio

Cymeriadau:

CRYSMAS HUWS
MORWYN
HARRI TY TOP
MERI WILIAS
DIC PRINCE
JANE HUWS
NED LLONGWR
ELIN JOS
MERI LISI
ROBIN DAFYDD
JOHN HUWS
MARI HUWS
PLANT

CRYSMAS HUWS: (*yn nesau*): Ugain munud arall na fyddwn ni yn y pentra. Dal i gredu 'rhen feic, 'r wyt ti'n cofio dy ffordd bellach. Sut byddwn ni'n sgwrsio bob Llun cynta'r mis?

Ffri wilio gwastad Caera
A rhuthro drwy Bantglas.
Arafu wrth basio'r Dafarn Faig
A chyfri'r hyrddod ar y graig
Union rwan i'r pwll gro
Mae stesion Bryncir rownd y tro.

Ia 'rhen feic 'r wyt ti'n iawn. Glandwyfach ydi hwn. Na fiw i mi alw yma heddiw er cystal fyddai glasiad. Toes gin i'r un geiniog goch ar fy helw, a toes dim rhagor o le ar y llechan. A gwranddo, rhyngot ti a fi a'r hen gloddia 'ma, phia mi 'mo nhrons. Hi hi, Hi hi. Pwy bia fo ddwedaist ti?

Y gwir yn erbyn y byd
Y mhen i yn erbyn y wal.

Dyma i ti pwy pia fo—"Y Mri Bears Betterwear,

Llundain W.C.1."

Hitia befo mi ddaw haul ar fryn eto cawsan ni weld pen allt Penarllygaid. Mi gerddwn ni hon 'dw i'n meddwl, 'dwyt ti mwy na finnau'n mynd fawr 'fengach (*SWN CERDDED GYDA'R BEIC*) Dyma iti giat Ynys Dyfnallt. Licio'r enw? Na tydw i ddim yn meddwl mod i. Tydi o ddim pats o enw i "Gefnrhengwd" a "Chors-y-wlad." Dyma iti Caer Armi, mae gin i awydd galw yn fan'ma (*RHOI EI FEIC AR Y CLAWDD*) Mi gei di orffwys bach rwan. Mi af inna i edrach am William Owen. Mae arno fo dri thro i mi rwan. Tri swllt.

(*SWN CERDDED A CHURO DRWS*)

Felna mae 'i dallt hi aie, smalio na 'toes 'ma neb adra.

(*SWN CURO DRWS YN FFYRNIG*)

(*SWN BUARTH*)

Cwyd William gael iti gael gweld arch Noa sy'n yr iard 'ma.

(*SWN FFENAST LLOFFT YN AGOR*)

MORWYN : (*yn gweiddi*) Mae mistras yn gofyn fasa rwbath gynnoch chi beidio cadw cymaint o ddrw. Mae mistar yn wael iawn heddiw.

CRYSMAS : Yn llofft rydach chi i gyd yn byw yma ar ddydd Llun?

MORWYN : A mae mistras yn deud y talith mistar i chi os bydd o wedi mendio'n ddigon da i fynd i'r banc ddydd Gwener.

CRYSMAS : Tri swllt sydd arno fo i mi, nid tair mil, a hwyrach na fydd o ddim wedi mendio erbyn dydd Gwener.

MORWYN : Mi geith fynd i'r banc ddydd Sadwrn.

CRYSMAS : Pera'r diawl fynd yno erbyn un rhag ofn ei fod o wedi anghofio eu bod nhw'n cau ddeuddeg 'r un fath â'r wsnos dwaetha.

MORWYN : Cau dy geg.

CRYSMAS : Be ddeudaist ti?

(*SWN TAFLU CARREG DRWY FFENEST*)

Gobeithio ei bod hi wedi disgyn ar dalcen dy fistar.

MORWYN : "Dyn Swllt,
Dyn socs
Crysmas Huws
Crysmas Bocs"

(*SWN CERDDED*)

CRYSMAS : (*Siarad ag ef ei hun*) : Wn i ddim bestad i'r oes yma. Y gwartheg yn yr iard ganol dydd, y ci yn y gegin, y mistar yn ei wely hefo'r forwyn, ia hogan o forwyn yn deud wrtha i am gau ngheg. *Fi*—Crysmas Huws V.C. Trafaeliwr parchus yng ngwasanaeth y Mri Bears Betterwear, London W.C.1.

Gwrando 'rhen feic. Tydi o ddim gormod i mi ddeud ma fi enillodd y Rhyfel Mawr cynta'—weli di'r fedal 'ma—tydi dyn ddim yn cael y V.C. am hel wyau cornchwiglod, coelia di fi. Brenin Lloegr yn deud wrtha i "Crys" medda fo "Mae hi'n hen bryd i ti fy ngalw i wrth fy enw cynta'." Llauer i gêm o Ludo chwaraeais i hefo fo, a mi curwn i o bob gafael. Ond dyna fo—newid ddaeth o rod i rod, chadal Edmwnd Prys (*SWN REIDIO BEIC*) Tyrd 'rhen feic mi gawn ni ffrwilio'n go hir rwan. Wê, tra bydda i'n picio i'r cwt teliffonio 'ma, mi gês i dair ceiniog yma'r tro dwaetha.

(*SWN AGOR CIOSC, CURO'R BOCS PRES*)

Dim un geiniog, Botwm B—mi bwysa i hwn.

(*SWN CENIOGAU YN DISGYN*)

Daliwch ati hi 'rhen gochion—un, dwy, tair—chwech saith, wyth geiniog.

(*SWN CODI TELIFFON*)

(*LLAIS MAIN*) : Hylo, Cricieth sy' na? Ia. Hogan Musus Tomos ydach chi? O da iawn. Gwrandwch ngenath i, Huws bach—Y Parch Huw Huws, eich gweinidog chi sy' ma. Mae arna i isio i chi gael Caer Armi i mi. Tydw i ddim yn siwr o'r nymbar, a rhowch o i lawr yn fy nghownt i wnewch chi? Toes gin i ddiin arian mân hefo mi. Deudwch wrth eich mam y galwa i acw cyfle gynta' ga' i. O, rhoswch mae'r Gymdeithas yn cyfarfod nos Wener. Mae Edna May yn gwneud papur ar Harri Huws Bryncir; Gwyneth Tai Ffatri ar Robert Jones Rhoslan a chitha ar Owen

Gruffydd, Bardd yr Uchelwyr. Ydi o gynnoch chi? Naci, naci 'mach i yr Owen Gruffydd arall. O diolch yn fawr. Caer Armi? Mr. Huws y gweinidog sy 'ma, ga'i air hefo Mr. William Owen os gwelwch yn dda? Y forwyn sy 'na? Ydi pawb ar i fyny yna? O! da iawn. William Owen yn y gors bella wrth yr afon—rhedwch i'w nol o i mi a pherwch o frysio, mi fydda i'n dal y lein.

(*RHOIR TELIFFON YN OL, SWN CERDDED*)

Mi rydd hynna wers i'r hogan forwyn 'na. Rwan 'rhen Swift be ddyliet ti tasa ni'n ei hunioni hi am Gae Llwyd rwan. Mae ar yr hen deulu domen o syltau i mi bellach.

Dyma ni, aros di mi sleifiwn ni i fyny'r lôn groes, os gwelan *nhw* ni fydd dim dichon cael yr un gopa ohonyn' *nhw* i'r drws.

(*LLEISIAU PLANT YN CHWARAE*)

"Pwy ddaw, pwy ddaw o dan y bont a'r Seini?

Myfi, myfi a'm holl gwmpeini."

Aros di'n fanna 'rhen feic, mi fyddi reit ddiogel dan y dderwen fawr, mi a inna i hel tipyn o'm syltau, a mi gawn damaid o ginio mewn heddwch wedyn siawns. Sleifio rownd y gongl i nymbar 10 fydd orau i mi.

PLANT: (*yn gweiddi*) "Dyn swllt,

Dyn socs

Crysmas Huws,

Crysmas Bocs"

(*SWN PLANT YN RHEDEG I FWRDD*)

(*SWN CURO AR DDRWS*)

CRYSMAS: Damia, dyna fi wedi methu eto. Cinio i ddechra a hel wedyn.

(*SWN CERDDED*)

Gwyn eich byd pan y'ch gwaradwyddant. Tybad hefyd? Be' sy' ar y menu heddiw? Be' sy' gin ti dan dy hatsus Elin Huws? Caws, ia. Ych jam baw defaid bach. Bestad i'r ddynas, mi fydd raid i mi roi pregeth eto iddi ar ôl mynd adra—mi w'yr o'r gora na dda gin i ddim brechdan jam yn enwedig jam cyrants duon. Aha, ron i'n ama mod i'n clywed ogla ci. Rex, chdi sy'

'na? Pryd cest ti fath ddwaetha Rex bach? Ysgwydy dy ben wyt ti—chest di 'r un rioed debyg. Hwda, dyma iti fath poeth o'r thermos fflag. (*SWN CI YN CYFARTH*) Dwad wrth dy fistar y caiff ynta un hefyd os na dalith o'i swllt i mi heddiw. Faint o'r gloch ydi hi bellach? Hold on; pan mae'r bys mawr ar dri a'r bys bach ar naw mae hi'n ugain munud i saith. Pan mae'r bys bach ar ddeg a'r bys mawr ar bump mae hi'n chwarter i dri, os nag ydw i'n methu'n arw pan mae'r ddau fys ar gefna'i gilydd mae hi sbel wedi deuddeg—mi arhosa i am bum munud arall dwi'n meddwl. O! ia mi awn ni ymlaen â'r drafodaeth o'r lle gadawsom ni hi dan Bont Grachod ddoe Mr. Bear. Pedwar llythyr gan y Mri Bears Betterwear. Dyma *nhw*'r funud 'ma. Y cynta'n gogoneddu f'enw i ac yn addo ceiniog y swllt ar bob dilledyn wertha i. Yr ail yn fy annog i werthu mwy, a chanolbwyntio ar y tronsia hirion. Y trydydd yn fy llongyfarch ac yn crefu am y syltau, a'r olaf yn fy rhegi ac yn gorchymyn i mi anfon y dillad yn ôl i Mr. P. Bear; Mr. Percy nid Mr. Polar fel oedd ar y siec am ddau swllt. Ia, fel ro'n i'n deud ddoe mai tloedi sy'n gyfrifol am bopeth ond syched.

A syched sy'n gyfrifol am dlodi, meddai Mr. Bear.

Tafodiaith Parc Ffinics. Rhuwch Mr. Bear, rowliwch yn y pridd coch o dan y dderwen fawr. Arhoswch ar wastad eich cefn a'ch coesau yn yr awyr. Galwch ar Dduw eich byw am syltau gloywon, tlyision, gwynion, crynion.

Bihafiwch Mr. Bear. Nid y Polar oedd y drwg. Toes gin i ddim llawn ddeuswllt yn y District Bank. Nid arna' i mae'r bai nad oes 'na ddim District Bank yn y pen yma—os nad oes 'na un yn y 'Berch. Hylo, bys mawr ar ddau o'r gloch, mae hi felly'n hanner awr wedi deuddeg. Mae hi'n hwy'r glas i mi ddechra hel. Mi alwa i hebio i Harri Ty Top i ddechrau.

(*SWN CURO DRWS*)

HARRI: (*o bell*): Dowch i mewn. Dowch i mewn.

CRYSMAS: Fedra' i ddim cynnig agor. Mae'r hen ddrws 'ma wedi chwyddo.

HARRI : Pwysa di ddigon hegar ar y gliciad; mae o yn siwr o agor iti.

CRYSMAS : Aw! Aw! Aw! Pitar, Pedrog, Penri. Fedra i ddim cynnig gollwng. 'Rydw'i yn marw. Y beic i Ben; y dresal i Elin, tatws hadyd i Wmffra, a'r ffurat i Ned!

HARRI : Hi! Hi! Hi! Dyna i ti werth swllt o gricmala.
(SWN CICIO'R DRWS)

CRYSMAS : Mi gei di dal am hyn, o cei.

HARRI : Ydi'n rhaid i ti andwyo'r llwyn hen ŵr 'ma?

CRYSMAS : Nymbar 9. Tydi rhain ddim yn dalwrs chwaith. Bedi hwn? Pisin deuswllt mewn potal lefrith wag am hanner awr wedi hanner dydd. Cipio hwn gynta' medra' i ydi'r gora' i mi dwi'n meddwl.

(SWN PRES)

Nymbar 8. Dyma dipyn o newid. Meri Wilias y wniadrag ydi'r dalrag ora' sy' gen i ar fy llyfr.

(SWN CURO, DRWS YN AGOR)

MERI WILIAS : Dowch i mewn am funud Crysmas Huws gael i mi dalu i chi.

CRYSMAS : Tasa pawb cystal am dalu â chi . . .

MERI WILIAS : 'Steddwch am funud—ma'r cerdyn a'r swllt wrth law yn nror y dresel gin i.

CRYSMAS : O! O! O! Ma gynnoch chi nyth gwenyn yma.

MERI WILIAS : Rhoswch, rhoswch, 'rydach chi wedi ista ar y bincas, Ddylwn i mo'i gadal hi ar y gadar.

CRYSMAS : Dyna ni, swllt, yp tw dêt Meri Wilias. Pnawn da. Nymbar 7. Y petha Prince ma. Yr un hen gân ma'n debyg iawn. Y drws wedi gau, a'r Prinsus i gyd yn swatio fel moch yn y twll dan grisia. Troi tu min pia hi. Bleind y siambar i lawr. Be gebyst?

(SWN CURO DRWS YN CHWYRN.
DRWS YN AGOR)

DIC PRINCE : Porfadigath sy' gynno ni. Taid. *Trombosis*. Amdano' chi'r oedd o'n galw ar i wely angal.

CRYSMAS : Soniodd o rwbath am y syllta?

(SWN DRWS YN CAU YN GLEP)
Cachwrs. Chdi a dy daid.

(SWN CERDDED)

Mi ga'i bres gan Jane Huws y siop os na cha'i groeso.

(SWN CLOCH DRWS SIOP YN CANU)

Hylo! neb ar y cyfyl. Tasa'r hen gath 'na yn symud i rwla o'r clorian, fydda dim gin i gipio'r porc pei 'ma. Shw, shw. O os na felna ma'i dallt hi mi gymra' i brwnsan o'r bocs 'ma.

(SWN CERDDED)

JANE HUWS : Helo.

CRYSMAS : Ga' i werth cath o furum?

JANE HUWS : Faint sy' arna i?

CRYSMAS : (*yn siarad â phrwasan yn ei geg*): Pythefnos.

JANE HUWS : (*yn agor y til*): Dyma i chi chweigian. Dowch chi â dau swllt i mi.

CRYSMAS : Diolch. Ma arna' i ofn na toes gin i ddim newid. Licia' chi dalu 'mlaen am wyth wythnos.

JANE HUWS : Dau ddrwg dalu sy'. Talu 'mlaen a pheidio talu byth.

CRYSMAS : Dowch chi â chweigian arall i mi Jane Huws, mi ro' inna' ddeunaw swllt i chi. Diolch. Mi fydda' i'n deud bob amsar. Busnas bach gonast pia hi. Cowlad fach a'i gwasgu'n dynn. Pnawn da. Nymbar 5. O Ned Llongwr.

(SWN CURO AC AGOR DRWS)

NED : Ble buost ti'n llusgo. Ma hi'n mynd yn hwyrach arnat ti'n galw bob wsnos. Fuo mi'n deud stori'r dyn du yn Barcelona wrthat ti?

CRYSMAS : Do.

NED : Naddo? Peth od. Llusgo bydda hwnnw. Cofio pan o'n i'n fosyn ar y Poplar Branch. 'Roedda ni i fod i hwylio bnawn Llun. 'Roedd un dyn du ar ôl; Ham Chong y saer. A dyma'r mêt yn rhoi arna i i gael hyd iddo fo; a dwad â fo i'r llong cyn dau o'r gloch. 'D oedd fiw mi ddwad yn f'ôl hebddo fo: fasa'r hen ddyn yn lloerig. Mi gwnes i hi'n syth am y dafarn y bydda ni'n arfar galw ynddi hi. 'R oedd y tafarnwr, un bychan tywyll, ymhen y drws yn smocio—Oedd, yr oedd Ham Chong wedi bod yno ac wedi ymadael ers hanner awr yn reit foldynn. "Yn y siop swfaniars

dowch chi o hyd iddo fo," medda'r tafarnwr. "Mi 'r oedd o'n sôn am brynu presant i'r wraig." A be' medda' ti ddiwyddodd wedyn?

CRYSMAS : Mi gawsoch ych gwadd i stafall yng nghefn y siop.

NED : 'Rwyf ti'n iawn. Wedi i mi holi am Ham Chong, dyma'r siopwr yn fy ngwthio i o'i flaen i stafall dywyll, a'r funud nesa' dyma fi'n camu i dwll, a mi ddisgynnys deirllath i'r selar.

CRYSMAS : I dorri stori hir yn fyr, mi ddwynwyd ych arian chi bob dima, ac wrth i chi ddengid drwy'r siop dyma chi'n cipio perlau gwerthfawr oddiar y cowntar, a phan wel y mynci mul dyn docia New Zealand hwnnw yn dda i prisio nhw; mi ga inna' nhalu.

NED : Mewn sofrins machgan i. Gollwng, gollwng, gollwng y nghlust i!

CRYSMAS : Llynadd, leni, rhywdro, nefar.

NED : Mi dy riportia i di i'r Sailors Home, i'r Foreign a'r British Legion, a mi sgwenna i lythyr i Badan Powal a Lloyd George, a mi gicia i dy din di o fanma i Beunos Eurus, y trafeiliwr sacha diawl.

(SWN CURO DRWS. DRWS YN AGOR)

CRYSMAS : Sudachi Elin Jô's?

ELIN JOS : Tyd, ma' gin i panad ar dro. Ista wrth y bwrdd crwn. Ma' gin i wigsan i ti: tydi hi fawr o beth tro yma chwaith. Toes na'r un gyransan i chael am aur yn siop Jane. Llifogydd wedi boddi'r caea' cyrains yn China medda' hi.

CRYSMAS : Tewch.

ELIN JOS : Methu credu i ordro digon ma' hi. Petha' tynn oedd 'i thad a'i mam hi.

CRYSMAS : Ma' hi'n o ddiarth i mi.

ELIN JOS : Mi lwgodd 'i gŵr, y cradur. Mae o dipyn gwell i le hiddiw.

CRYSMAS : Be' wyddoch chi sut le sy'n 'rochor draw?

ELIN JOS : Mi wn i sut le gafodd o 'rochor yma. Te a brechdan a mwtrin swêj Sul a gwyl. Mi fasa'n llawar harddach iddi fod wedi rhoi maeth yn 'i stunnog o na charrag biws ar i fedd o.

CRYSMAS : Mi gredodd yn y pen dwaetha?

ELIN JOS : Ofn siarad pobol. Pa bryd ma' Magi Becws yn priodi.

CRYSMAS : Dydd Sadwrn nesa' yn yr eglwys.

ELIN JOS : Ydi hi'n cael hogyn da?

CRYSMAS : Erman oedd o. Mae o wedi cael swydd bwysig yn y pyllau glo.

ELIN JOS : Fydd hynny'n ddyrchafiad.

CRYSMAS : (yn tagu) Bydd a na fydd.

ELIN JOS : Bydd?

CRYSMAS : Na fydd.

ELIN JOS : Ydi hi am gael i chydabod am chwara'r organ?

CRYSMAS : Nag ydi. Piodas sgyrsion ydi hi.

ELIN JOS : O. Ydi Harri Tŷ Top wedi talu i ti?

CRYSMAS : Mi fuo nês iddo fo lladd i, ond mi gafodd y gwrban ora fedrwn i i rhoi iddo fo—Faint sy' arna' i i chi Elin Jô's?

ELIN JOS : Aros di; mae o i lawr gin i ar y llechan yn y siambar. Dau dro. Pedwar swllt.

CRYSMAS : Reit. Dyma ni'n sgwar. 'Rydw i wedi torri f'enw bedair gwaith ar y cerdyn. Mi sleifia' i i nymbar 3 rwan.

(SWN GOLCHI LLAWR)

(SWN YSGARMES, BWCED YN POWLIO)

Golchi llawr sy' ma?

MERI LISI : Gollyngwch fi yr hen gena' powld.

CRYSMAS : Ych! Ych!

MERI LISI : Mi rydd honna wers i chi.

CRYSMAS : Ydi dy dad yn tŷ?

MERI LISI : Tydio ddim ymhell.

CRYSMAS : Oes gin ti dad?

MERI LISI : O oes. Nhad ydi'r dyn prysura yn y pentra ma.

Fo ydi gohebydd yr Herald, ysgrifennydd y fynwant a thrysorydd yr Ysgol Sul. Mae o wedi gadael yr arian i mi. Dyma i chi durniad o ddimeua.

CRYSMAS : Fasa well i mi ddwad i mewn i' cyfri nhw?

MERI LISI : 'Ryda chi'n hen ddigon agos ple'r ydach chi. Cyfrwch nhw yn ych het.

(SWN GWAGIO PRES I HET)

CRYSMAS : Wyth a deigian o ddimeuau. Dau swllt. Yp tw dêt. Pnawn da ngenath i.

(SWN CERDDED. CURO DRWS YN FFYRNIG)

Taswn i'n curo hyd ddydd y Farn chlyw Robin Dafydd mohona i. (GWEIDDI) Robin, Robin Dafydd wyt ti yma? 'Rydw i'n dwad i mewn.

ROBIN DAFYDD : Stedda yn fanma wrth f'ochr i ar y setl, ne chlywa i'r un gair ddeudi di. Ddeudis i wrthat ti sut collis i nghlyw?

CRYSMAS : Do droeon.

ROBIN DAFYDD : Un o effeithia'r rhyfel cynta'. Yn Ffrainc ar bnawn tawel yn 1916. Mi syrthis i gysgu ar faril un o'r gynna' mawr. Mi daniodd rhyw ffwl o Sais ar haid o wyllanod. 'Rydw i'n clywad y glec y funud 'ma. Mi addawodd un o brif ddoctoriaid clustia Ffrainc y cawn i nghlyw yn ôl pan giliai'r sioc.

CRYSMAS : Mae arnoch chi chweswllt.

ROBIN DAFYDD : Aros i mi gal bachu'r peiriant clywad 'ma yn fy nghlust.

(SWN GWICHIAN NES CODI'R IAR O'I
CHLWYD)

CRYSMAS : (yn gweiddi) Amser talu.

ROBIN DAFYDD : Naddo, mi rhychis i hi leni am y tro cynta' 'rioed. Toes yma ddim plant yn rhedeg a rasio rwan. Y fenga newydd droi allan. Seimiwr ar y lein. Gwaith â dyfodol o'i flaen o. Mi wn i am hogyn sy'n cael deunaw punt yr wsnos am danio.

CRYSMAS : (wrtho'i hun) Ma gynno fo gwpwrdd gwydr llawn yma. Present from Garn, Llanbedrog a'r Sarn, a dwy felin wynt binc. Y plant ddoth â rheina adra' o drip yr Ysgol Sul ma siwr. A present from Llanrwst. Ia Llanrwst. Ia, yn Llanrwst yr enillodd Dafydd Felin a finnau ar y ddeuawd "Lle Treigla'r Caferi." Baswr da oedd Dafydd. (Crysmas yn canu).

Ar bob clo-o-gwyn yn India

O ardd Carcasur hyd i draeth Crafancôr.

ROBIN D. : Ydi, mae'n anodd i ti beidio gwylltio ond mi dala'i iti tasa' hynny'r peth dwaetha 'na i.

CRYSMAS : Mi fydd.

ROBIN D. : Ordwrch ddwy wasgod wlanan i Defi John. Rhai hwy na'r cyffredin. Mae o ar i brifiant.

CRYSMAS : Dwy fest 34 i Nymbar 2. Gwell cael ordor gan ddrwg dalwr na methu cael ordor yn byd. Mi a i i edrach am ŵr a gwraig Nymbar 1 rwan. Mae rhyw reswm arnyn nhw. Braf heiddiw deulu. Ista allan ryda chi.

JOHN HUWS : Ia. Un i lawr : llwyth bach ysgafn a eg yn i ganol o.

CRYSMAS : Jygyn.

JOHN HUWS : Un, dwy, tair, pedair, pump. I'r dim. Gymri di ddiod o laeth?

MARI HUWS : Steddwch wrth ochor John ar y fainc Crysmas Huws. Mi a i nôl y cardyn a'r swllt i chi.

CRYSMAS : Mi ddoth yn o sydyn yn Nymbar 7.

MARI HUWS : Oes rhwbath wedi digwydd i Rhisiart?

CRYSMAS : 'I dad o fu farw bora. Thrymbosis a mae arno fo ddeuddag swllt i mi.

JOHN : Tybad.

CRYSMAS : Oes, bob dima.

JOHN : Mi faswn i'n taeru ma fo welis i'n mynd hebio ar 'i feic gynna a chawall cimwch ar 'i gefn.

MARI HUWS : Amgylchiad. Oes gynno chi fân bresiach John? Mi fydda'n well i mi alw yno, a mi a i â chwarter o'r te rhydd o siop Jane hefo mi.

CRYSMAS : Wel, pnawn da John Huws.

JOHN HUWS : Tendia di'r petha Prince 'na, ma' nhw'n llawn castia.

(CRYSMAS YN DYCHWELYD AT EI FEIC—
SIARAD)

Ma gin i ryw syniad fod rhwbath mawr ar ddigwydd. Ymhle gebyst y ces i y profiad yma o'r blaen. Yn Ffrainc? Naci wir. Ia dyna fo. Yn nhaflod Coicia Bach ychydig o eiliada cyn i droed y gwely fynd drwy'r llawr i'r tŷ laeth.

Gest ti lonydd rhen feic. Ma' pob dim i weld yn 'i le. Pwmp, cloch, a lamp. Erbyn meddwl ma'n siwr fod y plant yng nglan y môr ar bnawn braf fel hyn.

(CYCHWYN AR GEFN EI FEIC)

Tyrd mi gnawn ni hi adra dow dow.

(*Y BADLAN YN GOLLWING EI GAFAEL A
CHRYSMAS YN CAEL CODWM*)

Y diawlad. Pam fod pobol yn enwedig plant â'u dant yna' i. Mr. Crysmas Huws V.C. Sawl gwŵr yng Nghlwt y Bont fedar ddangos medal fel hon. Pan o'n i'n hogyn y rhai a lwyddodd i aros adra o'r rhyfal a wawdid. Tybad a ddoth tro crwn ar betha'. Oho, mi gwela i hi. Mi gwela' i hi. Mi gwela i hi. Ma'r cwbl yn glir fel jin i mi rwan. Fy ngwaith sy'n 'y ngneud i mor amhoblogaidd. Plismon, cipar, trethwr, beili, trafaeliwr. Trafaeliwr. Pam nad es i i'r môr, i heddwch, i wareiddiad. A, mi wela' i beth oedd achos fy nghodwm i. Y plant gebyst ma eto. Dadsgriwio'r badlan; dyna dric budur. Hitia befo'r hen feic mi ro i'r badlan yn fy mhocad a mi powlia i di i'r efail. Fydd Dafydd y go' ddim yn hir yn trwsio dy friwia di.

(*SWN MWMIAN YN Y PELLTEROEDD*)

Glywi di rw bath Swift. Indiaid Cochion yn dwad o'r mynydd i'r ddôl i nol swpar dwi'n meddwl. Naci, aros; weli di be wela' i? Y giwad plant 'na. Mae'r dderwen fawr yn llawn ohony nhw. Tyrd mi awn ni i'r efail at Dafydd.

(*PLANT YN LLAFAR GANU*)

Dyn swllt, dyn socs

Crysmas Huws, Crysmas boc.

(*SWN GEFAIL. CURO AR YR ENGAN*)

DAFYDD Y GOF: Helo Crysmas Huws. Bedi'r helynt? Pynjar?

CRYSMAS: Naci Defi bach. Yr hen blant cebyst na eto. Dadsgriwio'r badlan ddaru nhw, a phan oedd fy nghoes dde i yn yr awyr ar hanner y ffordd i'r cyfrwy mi ollyngodd 'i gafal a mi ges godwm.

DAFYDD: Mae'ch gên chi'n gwaedu'n o arw; gymrwch chi ddysglad o ddŵr cynnas i golchi hi?

CRYSMAS: Diolch Defi bach. Diolch. Anghofia' i mohonoch chi.

DAFYDD: Ple mae'r badlan?

CRYSMAS: O dyma hi. Mi trawis hi yn fy mhocad.

DAFYDD: Fyddda' i ddim yn hir hefo hon.

CRYSMAS: Diolch machgan i. Mi stedda' i ar y blocyn acw os ca' i. Ma' gin i isio sgwennu llythyr go bwysig. Mi liciwn i weld wynab Mr. Bear wedi iddo fo ddarllen hwn.

(*DARLLEN Y LLYTHYR*)

s.s. Inverarder,
Valparaiso.
Bore Sul.

Annwyl Mr. P. Bear,

Hyn sydd i'ch hysbysu fod y *drygedydd* Crysmas B. Huws yn ymddiswyddo o fod yn gynrychiolydd y Mri Bears' Betterwear.

Arwyddwyd,

Huws, Crysmas B.

O.N. Nid wyf wedi derbyn rysêt am y siec am bymtheg a grôt.

(*Sîn corn stemar*)

DIWEDD